# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG 8/10/14

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Jason Humphreys (Cyngor Gwynedd), ynghyd â'r Mri Gwyn Davies (Cyngor Tref Porthmadog), Dr John Jones-Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden), Robert Owen (Buddiannau Masnachol) a Peter L. Williams (Sefydliad y Bâd Achub, Cricieth).

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd John Wynn Jones (Aelod Cabinet - Economi)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Llŷr B. Jones, (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), David O'Neill (Harbwr Feistr) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2014/15.**

## 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2014/15.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Mawrth, 2014, fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

### a) Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau

Nodwyd bod camau wedi eu cymryd i geisio cadarnhau cynrychiolaeth Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau Abermaw ac Aberdyfi, ond gan fod Pwyllgor Ymgynghorol Porthmadog wedi ei sefydlu o dan Orchymyn Adolygu Harbwr Porthmadog 1998 roedd aelodaeth y Pwyllgor yma yn fwy pendant.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed aelodaeth, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ni dderbyniwyd ymateb ffurfiol gan Gyngor Tref Porthmadog yn cynnwys y farn gyfreithiol a dderbyniwyd ganddynt. Pwysleisiwyd mai'r Cyngor Tref oedd yn enwebu cynrychiolydd ar eu rhan fel aelod cyfetholedig ar y pwyllgor.

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at Gyngor Tref Porthmadog yn egluro'r sefyllfa.**

### b) Cofnodion Cyfarfod Blaenorol

Tynnwyd sylw'r aelodau at gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2012. Nodwyd bod y cofnod o dan y pennawd 'Diogelwch' wedi camddehongli'r drafodaeth yn y cyfarfod lle bu trafodaeth am gamymddwyn yng nghyffiniau'r harbwr a damwain.

Eglurwyd bod mam y bachgen wedi cysylltu yng nghyswllt y mater ac yn datgan anfodlonrwydd am yr hyn a fu wedi ei gofnodi. Pwysleisiwyd nad oedd y ddamwain lle anafwyd ei mab gyda propeller cwch yn deillio o gamymddwyn. Pwysleisiwyd ei fod yn angenrheidiol bod Aelodau o'r Pwyllgor yn archwilio'r cofnodion yn fanwl ac yn cynnig cywiriadau cyn cadarnhau'r cofnodion.

**PENDERFYNWYD:**
**(a) bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn cysylltu efo mam y bachgen yng nghyswllt y camddealltwriaeth;**
**(b) anfon at fam y bachgen copi o gofnodion y cyfarfod yma wedi eu cadarnhau.**

**c) Cod Diogelwch Harbyrau**

Eglurodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned y mabwysiadwyd trefn newydd yng nghyswllt Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau gyda'r Cod Diogelwch Harbyrau yn un o'r prif yrwyr. Nodwyd y byddai adroddiad blynyddol yn mynd gerbron y Cabinet ac mai'r Pwyllgor Ymgynghorol yw'r fforwm ar gyfer codi materion neu amlygu pryderon o dan y Cod Diogelwch.

Nodwyd bod copïau wedi eu dosbarthu o'r Cod ac fe ofynnwyd fod copi electroneg pellach yn cael ei anfon at yr aelodau.

**PENDERFYNWYD bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn anfon copi electroneg o'r Cod Diogelwch Harbyrau at yr aelodau.**

**ch) Staff Harbwr**

Nodwyd, yn dilyn ymddeoliad y Swyddog Morwrol Harbyrau, bod yr Haf wedi bod yn hynod heriol gyda'r baich wedi ei rannu rhwng staff presennol y Gwasanaeth.

Adroddwyd bod yr Harbwr Feistr yn gadael ei swydd yn fuan er cymryd swydd fel Harbwr Feistr Caernarfon gyda'r Ymddiriedolaeth Harbwr. Diolchwyd am ei gyfraniad dros y blynyddoedd a oedd wedi cyfrannu'n sylweddol at wella safonau yn yr harbwr.

Nodwyd yr hysbysebir swydd yr Harbwr Feistr yn ogystal â Swyddog Morwrol Harbyrau yn y dyfodol agos.

Mynegodd yr aelodau eu gwerthfawrogiad o waith yr Harbwr Feistr a dymunwyd yn dda iddo.

Ymhelaethodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar raglen waith y Gwasanaeth ar gyfer y Gaeaf.

**d) Materion Diogelwch Parcio**

Nodwyd bod Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol wedi tynnu sylw at drafferthion mynediad cerbydau oherwydd bod unigolion yn parcio ar yr '*apex'* ger y Clwb Hwylio. Mewn ymateb i'r sylw, nododd cynrychiolydd dros fuddiannau hamdden bod y Clwb Hwylio yn gyfrifol am hanner y lôn ac y byddai'n codi'r mater yng nghyfarfod pwyllgor y Clwb Hwylio.

Nododd aelod bod angen i'r Cyngor fod ynghlwm a thrafodaethau yng nghyswllt y mater. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei barodrwydd i fod yn rhan o drafodaethau ac y byddai'n cysylltu â swyddogion eraill yn y Cyngor yng nghyswllt y mater.

**PENDERFYNWYD bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn cynnal trafodaethau yng nghyswllt y mater diogelwch parcio ger y Clwb Hwylio.**

**dd) Mordwyo ac Angorfeydd**

Adroddwyd yn dilyn camymddwyn, y gorfodir lansio cychod o'r safle lansio sydd wedi ei leoli ger prif fynedfa traeth Morfa Bychan yn hytrach na Chwt Powdwr er sicrhau diogelwch yr holl ddefnyddwyr. Nodwyd bod y sefyllfa wedi gwella ond nad oedd datrysiad cyflawn, felly byddai staff yn parhau i ddelio ac achosion o gamymddwyn.

Diolchodd aelod i'r swyddogion am orfodi lansio yn y man yma gan fod gwellhad yn y sefyllfa ac y dylid parhau ar y trywydd hwn.

Nodwyd bod Tŷ'r Drindod wedi cynnal archwiliad o'r cymhorthion mordwyo ac wedi rhoi 2 rybudd o beidio cydymffurfio. Eglurwyd bod y rhybuddion wedi eu tynnu o ganlyniad i gydweithio efo Tŷ'r Drindod ar ddatrysiad.

Adroddwyd y bwriedir cynnal archwiliad pellach o'r angorfeydd yn fuan yn 2015 gyda'r broses o geisio dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith ar gychwyn.

**e) Ystadegau**

Adroddwyd bod y sefyllfa o ran niferoedd cychod yn gyson a'r tuedd yn yr holl harbyrau gyda 3 cwch yn llai ym Mhorthmadog o gymharu â blwyddyn diwethaf.

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd rhestr manylion cychod yn yr harbwr i'w weld yn eglur yn y rhaglen oherwydd cefndir tywyll y tabl ac y byddai'n dosbarthu'r wybodaeth yn electroneg i'r aelodau.

**PENDERFYNWYD bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn anfon manylion cychod yn Harbwr Porthmadog at yr aelodau yn electronig.**

**f) Cyllidebau**

Ymhelaethodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar gyllideb terfynol 2013/14, gan nodi bod buddsoddiad sylweddol wedi ei wneud mewn cadwyni ac angorfeydd. Nodwyd bod y peiriant talu ac arddangos ym maes parcio Swyddfa'r Harbwr wedi cynhyrchu £5,609.97 o incwm, a oedd wedi galluogi sefyllfa cyllidebol terfynol calonogol o £6,623.

Rhoddwyd diweddariad ar sefyllfa gyllidebol diwedd Chwarter 2 blwyddyn ariannol 2014/15. Nodwyd bod y targed incwm ar gyfer y flwyddyn bron a'i gyrraedd ond gan nad oes bwriad codi tal ar gyfer parcio ym maes parcio ger Swyddfa'r Harbwr dros gyfnod y Gaeaf ni fyddai incwm sylweddol yn ystod y cyfnod hwn. Ychwanegodd ei fod yn ffyddiog o fod yn unol â'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

**ff) Ffioedd 2015/16**

Adroddwyd y bwriedir cynyddu ffioedd 2015/16 yn unol â chwyddiant.

**g) Cynllun Arfaethedig Pontŵn**

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod yr Harbwr Feistr wedi edrych ar y posibilrwydd o osod pontŵns yn yr harbwr. Ychwanegwyd bod posibilrwydd y gallai stanciau gael eu gosod yn yr harbwr ond nad oedd ffordd o ariannu wedi ei adnabod hyd yn hyn. Nodwyd y bwriedir cynnal trafodaethau pellach ynglŷn â lleoli pontŵn wrth ochr wal yr harbwr efo'r Clwb Hwylio.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed yr Academi Hwylio ym Mhwllheli, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod yn ffyddiog y byddai'r datblygiad cyffrous yma yn creu cyfleoedd ar gyfer yr harbyrau eraill yn ogystal â buddion i'r ardal yn ehangach.

Pwysleisiodd aelod pwysigrwydd gwerthu/hyrwyddo gweddill yr harbyrau yn ogystal â Hafan Pwllheli.

**h) Carthu**

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed carthu'r harbwr, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod y prosesau amgylcheddol ynghlwm a charthu yn gostus a maith. Ychwanegodd bod angen gweithio efo natur i ddarganfod datrysiad yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

Nododd aelod y dylid edrych ar yr opsiwn o roi rhywbeth ar y bont er ceisio datrys problem lefelau silt yn yr harbwr. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n holi yn anffurfiol i'r mater.

**i) Ansawdd dwr**

Adroddwyd bod ansawdd dŵr ymdrochi Morfa Bychan wedi cyrraedd y gofynion ond nad oedd hyn wedi ei gadarnhau yn ffurfiol hyd yma gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed ymgynghoriad Dŵr Cymru yng nghyswllt eu cais i CNC i amrywio'r drwydded yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Porthmadog, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod wedi ymateb yn nodi ei wrthwynebiad i stopio'r driniaeth drydyddol sef Diheintio Uwchfioled (UV).

**PENDERFYNWYD bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn cysylltu efo Dŵr Cymru i geisio diweddariad o'r sefyllfa yng nghyswllt Triniaeth Diheintio Uwchfioled (UV) ym Mhorthmadog.**

**6. Cyfarfod Nesaf**

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 4 Mawrth, 2015.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.30pm a daeth i ben am 6.55pm